Adroddiad corfforaethol

awdurdod safonau proffesiynol
ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Cynllun Strategol

## Gweledigaeth, cenhadaeth a nodau

2026-2029

SG/2026/57

# Cynllun Strategol 2026-2029 yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 16 (2) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

SG/2026/57

© Hawlfraint Awdurdod Safonau Proffesiynol 2026

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar **www.gov.uk/official-documents** or **www.professionalstandards.org.uk**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn **info@professionalstandards.org.uk**

SBN 978-1-5286-6300-7

E03562304 03/26

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 40%.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) yw corff goruchwylio'r Deyrnas Unedig ar gyfer rheoleiddio pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein cylch gwaith statudol, annibyniaeth ac arbenigedd yn sail i'n hymrwymiad i ddiogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac i amddiffyn y cyhoedd.

Mae 10 sefydliad sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr yn ôl y gyfraith. Rydym yn archwilio eu perfformiad ac yn adolygu eu penderfyniadau ar addasrwydd ymarferwyr i ymarfer. Rydym hefyd yn achredu ac yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cadw cofrestrau o ymarferwyr iechyd a gofal nad ydynt wedi'u rheoleiddio gan y gyfraith.

Rydym yn cydweithio â'r holl sefydliadau hyn i wella safonau. Rydym yn rhannu arfer da, gwybodaeth a'n harbenigedd rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym hefyd yn cynnal ac yn hyrwyddo ymchwil ar reoleiddio. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan roi arweiniad i lywodraethau a rhanddeiliaid. Trwy ein hymgynghori yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, rydym yn rhannu ein harbenigedd ac yn ehangu ein mewnwelediadau rheoleiddiol.

Mae ein gwerthoedd craidd o gywirdeb, tryloywder, parch, tegwch, a gwaith tîm, yn arwain ein gwaith. Rydym yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau a dull o weithredu ar [cy.professionalstandards.org.uk/](cy.professionalstandards.org.uk/)

# Rhagair gan y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr

**Mae'r cynllun strategol hwn ar gyfer 2026-29 yn nodi ein dull arfaethedig o gyflawni ein dyletswyddau statudol mor effeithiol ac effeithlon â phosibl dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n seiliedig ar ein nod craidd o ddiogelu'r cyhoedd. Rydym yn ymdrechu i wneud popeth o fewn gallu ac awdurdod ein sefydliad i gyflawni'r nod hwn.**

Ers cyhoeddi ein cynllun strategol diwethaf ym mis Mai 2023, mae'r heriau sy'n wynebu iechyd a gofal wedi dwysáu. Er bod pob gwlad yn y Deyrnas Unedig yn wynebu pwysau gwahanol, mae pob un yn rhannu'r angen am systemau iechyd a gofal gwydn, diogel ac effeithiol.

Gall rheoleiddio gefnogi hyn, pan fydd wedi'i dargedu ac yn gymesur. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, byddwn yn gweithio i gyflawni hyn drwy ein goruchwyliaeth o'r rheolyddion a'r Cofrestrau Achrededig yr ydym yn eu goruchwylio.

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer 2026–29: cyflawni ein dyletswyddau statudol gyda'r effaith, effeithlonrwydd a'r uniondeb mwyaf posibl. Rydym wedi nodi pum thema a fydd yn bwysig ar gyfer sut rydym yn gwella rheoleiddio dros y blynyddoedd nesaf: goruchwylio, atal, diwygio, llywodraethu a chydweithio.

Wrth wraidd hynny mae ein hymrwymiad diysgog i ddiogelu’r cyhoedd. Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu – o fewn ein pwerau a'n gallu sefydliadol – i gynnal y nod hwn.

Rhaid i'n gwaith adlewyrchu'r pethau cyffredin a'r gwahaniaethau ar draws Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Rydym yn cydnabod bod rheoleiddio a chofrestru yn rhan o system diogelwch ac ansawdd ehangach – a bod yn rhaid i ni wneud mwy, gyda'n gilydd, i wella canlyniadau i'r cyhoedd.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu parhau â'i rhaglen o ddiwygio'r rheolyddion statudol yr ydym yn eu goruchwylio. Bydd hyn yn dechrau gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), ac rydym yn disgwyl y bydd ymgynghoriad ar ei ddeddfwriaeth newydd ddrafft yn ystod blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol newydd. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i newidiadau dilynol i'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) o fewn y tymor Seneddol hwn.

Mae diwygio rheoleiddio yn dod â chyfleoedd sylweddol ar gyfer mwy o gysondeb a chydweithio ar draws y rheolyddion. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi gweithredu diwygio yn llwyddiannus, gan ddefnyddio ein rôl i nodi a hyrwyddo arfer da.

Byddwn hefyd yn cyflwyno safonau newydd sy'n cefnogi cyfeiriad y daith o ran diwygio'r rheolyddion, a'r system iechyd ehangach, trwy eu ffocws ar atal niwed. Cyflawnir hyn drwy feysydd ffocws newydd, megis llywodraethu a mwy o gydweithio ag eraill ar gwynion.

Rydym yn cydnabod y gallai blaenoriaethau newid dros oes y cynllun hwn. Mae rhai uchelgeisiau yn dibynnu ar gydweithio ag eraill. Yn unol â'n dull rheoleiddio cyffyrddiad cywir, byddwn yn parhau i fod yn hyblyg, yn benodol ac yn dryloyw – gan flaenoriaethu gwaith sy'n cyflawni'r effaith fwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Yn anad dim, byddwn yn cadw cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, a diogelu'r cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Byddwn yn gwrando. Byddwn yn dysgu. Byddwn yn codi llais. Ac ni fyddwn yn oedi cyn gweithredu pan fydd er budd y cyhoedd i wneud hynny.

**Caroline Corby, Cadeirydd**

**Alan Clamp, Prif Weithredwr**

# Ein cyd-destun gweithredol

**Mae annibyniaeth ac arbenigedd yr Awdurdod, ynghyd â'n trosolwg o reoleiddio a chofrestru proffesiynol, yn ein rhoi mewn sefyllfa unigryw i ymateb i heriau rheoleiddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ein prif bwrpas yw gwella rheoleiddio a chofrestru gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn well.**

Mae Cynllun Iechyd 10 Mlynedd Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025, yn nodi bod 'y dewis i'r GIG yn llym: diwygio neu farw'. Mae'r Cynllun yn pwysleisio rôl bwysig y gweithlu wrth gyflawni'r tri symudiad – o'r ysbyty i'r gymuned, o analog i ddigidol ac o salwch i atal. Rydym yn cydnabod yr heriau sylweddol parhaus o ran y galw am wasanaethau ac argaeledd adnoddau sy'n wynebu unigolion cofrestredig, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig. Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn gweithio mewn amgylcheddau anodd, ond mae'n hanfodol bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gofal diogel ac effeithiol.

Wrth edrych ymlaen, bydd yn bwysig iawn datblygu cynlluniau gweithlu effeithiol i ddiwallu gofynion staffio yn y dyfodol a chadw pobl yn ddiogel. Bydd hyn yn gofyn am ystyried rheoleiddio cymesur ac effeithiol ar wahanol grwpiau proffesiynol. Yn ogystal, mae gan bawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol rôl i'w chwarae wrth hyrwyddo diwylliannau cadarnhaol yn y gweithle sy'n cefnogi lles unigolion cofrestredig ac yn annog dysgu a gwelliant parhaus.

Mae adroddiad y gweithgor [Cynllun Iechyd 10 Mlynedd: pobl ](Rhagfyr 2025) yn sôn am newid ym meddylfryd y rheolyddion o fod yn "addas i ymarfer" tuag at un sy'n sicrhau bod graddedigion yn "addas at y diben" i ddarparu gweithlu'r dyfodol.

Mae Llywodraeth y DU yn annog rheolyddion i leihau beichiau a chostau gweinyddol, a hyrwyddo arloesedd a thwf. Mae angen i'r rheolyddion rydyn ni'n eu goruchwylio hefyd wella eu perfformiad, mynd i'r afael â chroniadau o achosion addasrwydd i ymarfer a chynyddu cydweithio â rheolyddion eraill a rhanddeiliaid ehangach er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn well. Bydd diwygio deddfwriaethol effeithiol yn helpu hwyluso'r newidiadau hyn. Yn olaf, mae gan reoleiddio a chofrestru rôl allweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a darparu amddiffyniad priodol i bawb..

# Beth rydym yn ei wneud

**Mae gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol bedair swyddogaeth allweddol.**

1. Rydym yn ysgogi gwelliannau yn y 10 rheolydd statudol mewn iechyd a gofal cymdeithasol trwy gynnal adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd.
2. Rydym yn darparu rhwyd ddiogelwch ar gyfer unrhyw benderfyniadau addasrwydd i ymarfer sy'n annigonol i ddiogelu'r cyhoedd (a elwir yn adolygiadau Adran 29).
3. Rydym yn codi safonau mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn rolau anstatudol trwy ein rhaglen Cofrestrau Achrededig.
4. Rydym yn defnyddio ymchwil, datblygu polisi ac arweiniad i wella rheoleiddio a chofrestru er mwyn amddiffyn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn well.

## Gweledigaeth

Gofal mwy diogel i bawb trwy safonau uchel o ymddygiad a chymhwysedd mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

## Cenhadaeth

I ddiogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy wella rheoleiddio a chofrestriad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

# Nod strategol 1:

# Diogelu'r cyhoedd trwy ddarparu trosolwg effeithiol iawn o reoleiddio a chofrestru

**Mae'r nod strategol hwn yn ymwneud â'n dyletswyddau statudol i adrodd ar berfformiad rheolyddion ac i achredu cofrestrau o grwpiau heb eu rheoleiddio.**

- Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol, targedu ein hadnoddau lle mae'r risg fwyaf i'r cyhoedd yn unol ag egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir.
- Cefnogi safonau uchel mewn rheoleiddio a chofrestru iechyd a gofal cymdeithasol drwy ein hadolygiadau perfformiad, adolygiadau Adran 29, rhaglen Cofrestrau Achrededig, polisi a swyddogaethau cyfathrebu.
- Ceisio mwy o ymgysylltiad â rhanddeiliaid i asesu perfformiad rheolyddion a Chofrestrau Achrededig.
- Adolygu a gwella ein prosesau (gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol ble fo angen) i sicrhau eu bod yn parhau yn effeithiol ac yn effeithlon.

**◗ Erbyn 2029:** Byddwn yn datblygu ymhellach ein swyddogaethau goruchwylio cymesur a seiliedig ar risg i adrodd ar waith rheolyddion a chofrestrau, gan ysgogi gwelliannau i amddiffyn y cyhoedd.

O fis Gorffennaf 2026 ymlaen, bydd yr Awdurdod yn gweithredu ei Safonau Rheoleiddio Da a'i Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig wedi'u diweddaru. Dyma'r safonau yr ydym yn asesu rheolyddion yn eu herbyn wrth gynnal ein hadolygiadau perfformiad blynyddol. Credwn fod ein safonau newydd yn adlewyrchu'n well yr heriau sy'n wynebu rheolyddion heddiw.

**◗ Byddwn yn gwybod bod gwelliannau wedi'u gwneud os:**

Ydym wedi gweithredu ein safonau newydd ar gyfer rheolyddion a Chofrestrau Achrededig yn llwyddiannus; mae ein prosesau'n gymesur ac yn gost-effeithiol; mae ein hadroddiadau ar berfformiad rheolyddion a Chofrestrau Achrededig yn glir, yn hygyrch ac yn cefnogi gwelliannau; ac rydym wedi addasu ein goruchwyliaeth yn ôl yr angen mewn ymateb i ddiwygio deddfwriaethol, er mwyn ein galluogi i barhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol yn effeithiol.

# Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn,

### Yn 20267/27, byddwn yn:

- Gweithredu ein safonau newydd ar gyfer rheolyddion a Chofrestrau Achredededig.
- Cyflwyno adolygiadau perfformiad cadarn a theg o'r rheolyddion statudol; defnyddio ein pwerau Adran 29 i adolygu canlyniadau paneli addasrwydd i ymarfer; rheoli'r rhaglen Cofrestrau Achredededig; ac adrodd ar ein canfyddiadau i'r Senedd.
- Archwilio sut y gallwn ehangu'r ystod ac amrywiaeth o safbwyntiau ar y rheolyddion a'r Cofrestrau Achredededig yr ydym yn eu goruchwylio trwy ein dull Rhannwch Eich Profiad.
- Gwella ein prosesau asesu risg a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ein dull goruchwylio, yn unol â rheoleiddio cyffyrddiad cywir.
- Chwilio am ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o Gofrestrau Achredededig gan gyflogwyr, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
- Adolygu beth sydd angen ei newid yn ein prosesau a'n deddfwriaeth i sicrhau ein bod yn cefnogi gweithrediad diwygio rheoleiddiol yn effeithiol er mwyn diogelu'r cyhoedd yn well.

### Yn 2027/28, byddwn yn:

- Adolygu effaith newidiadau i'n safonau newydd ar gyfer rheolyddion a Chofrestrau Achredededig.
- Gweithredu'r newidiadau deddfwriaethol a gweithredol sydd eu hangen i sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o'r GMC, y NMC a'r HCPC yng nghyd-destun diwygio'r ddeddfwriaeth ar gyfer y rheolyddion hyn.

### Yn 2028/29, byddwn yn:

- Gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'n safonau, canllawiau a/neu brosesau newydd sy'n deillio o'r adolygiad yn 2027/28.
- Sicrhau bod ein goruchwyliaeth yn parhau i fod yn effeithiol ar draws: rheolyddion sydd wedi cael eu diwygio a'r rhai nad ydynt; dulliau rheoleiddio gwahanol ar draws proffesiynau mewn iechyd a gofal cymdeithasol; a gwahanol fodelau rheoleiddio ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig.

# Nod strategol 2:

# I yrru gwelliannau mewn rheoleiddio a chofrestru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

**Mae'r nod strategol hwn yn adeiladu ar ein dyletswyddau adrodd craidd i gwmpasu hwyluso, cynghori ac adrodd i hyrwyddo a chefnogi gwelliant parhaus yng ngwaith rheolyddion a Chofrestrau Achrededig.**

- Defnyddio cyngor, canllawiau ac ymyriadau wedi'u targedu ac amserol (megis monitro gwell, cyhoeddi argymhellion a mynnu cynlluniau gwella perfformiad) i gefnogi rheolyddion a Chofrestrau Achrededig i fodloni ein safonau.
- I gefnogi gwelliant parhaus mewn rheolyddion a Chofrestrau Achrededig gan ddefnyddio ymchwil, dadansoddi data, cyngor polisi, ymgysylltu â rhanddeiliaid, egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir ac adborth ar berfformiad.
- Defnyddio canllawiau, data rheoleiddiol a deallusrwydd artiffisial i gefnogi dull mwy cadarnhaol, arloesol, rhagweladwy ac ataliol o reoleiddio a chofrestru.
- Hyrwyddo, dylanwadu a chefnogi diwygio rheoleiddio yn unol ag amcanion y Llywodraeth.
- Hyrwyddo a monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn ein gwaith ac yn y rhai rydym yn eu goruchwylio.

**Erbyn 2029:** Bydd gwelliannau clir ym mherfformiad yr holl reolyddion a Chofrestrau Achrededig; bydd yr Awdurdod yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o weithredu diwygio rheoleiddio yn effeithiol (y dylid ei gwblhau ar gyfer y GMC, yr NMC a'r HCPC); bydd dulliau rheoleiddio yn fwy cadarnhaol ac ataliol; bydd dangosyddion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y rheolyddion a'r Cofrestrau Achrededig yn dangos cynnydd sylweddol o'i gymharu â 2025/26.

**Byddwn yn gwybod bod gwelliannau wedi'u gwneud os:** Oes sylw cynhwysfawr i wiriadau addasrwydd proffesiynol priodol (gan gynnwys cofnodion troseddol) ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol; mae nifer cyfartalog y safonau a fodlonwyd gan y rheolyddion a'r Cofrestrau Achrededig wedi cynyddu; mae ôl-groniadau mewn addasrwydd i ymarfer wedi lleihau; mae nifer cyfartalog yr amodau ar gyfer Cofrestrau Achrededig sefydledig wedi gostwng; mae llai o apeliadau Adran 29 ac mae ein cyfradd llwyddiant ar gyfer yr apeliadau hyn yn parhau i fod yn fwy nag 80%; bydd rheolyddion a Chofrestrau Achrededig wedi mabwysiadu dull mwy ataliol o reoleiddio; a bydd dangosyddion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi gwella'n sylweddol.

# Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn,

### Yn 2026/27, byddwn yn:

- Rhoi adborth i reolyddion a Chofrestrau Achrededig ynghylch ble mae angen gwelliannau a defnyddio ymyriadau wedi'u targedu i gefnogi'r gwelliannau hyn ac ymdrin â phroblemau perfformiad.
- Annog ymchwil, cynnal cynhadledd ymchwil, darparu cyngor polisi, cyhoeddi canllawiau a rhannu arfer da i wella rheoleiddio a chofrestru.
- Mewnbynnu i ddatblygiad fframwaith rheoleiddio ar gyfer deallusrwydd artiffisial mewn gofal iechyd, gan ddefnyddio ein rôl oruchwylio i gydlynu ar draws y rhai yr ydym yn eu goruchwylio.
- Hyrwyddo dull pedair gwlad o wella rheoleiddio, gan gynnwys drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a seminarau ym mhob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig.
- Cefnogi diwygio rheoleiddio parhaus sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd a chefnogi gweithrediad y diwygio hwnnw.
- Hyrwyddo gwelliannau pellach yn y ffordd y caiff EDI ei hyrwyddo a'i fonitro gan yr Awdurdod a'r rhai rydym yn eu goruchwylio ac yn eu hachredu.

### Yn 2027/28, byddwn yn:

- Gwerthuso ymyriadau yr Awdurdod a ddefnyddir i gefnogi gwella ansawdd mewn rheolyddion a Chofrestrau Achrededig i nodi'r rhai sydd fwyaf effeithiol.
- Cefnogi rheolyddion a Chofrestrau Achrededig i ddefnyddio'r fframwaith rheoleiddio cyffyrddiad cywir i hyrwyddo gwelliant parhaus.

### Yn 2028/29, byddwn yn:

- Gwella ein hymyriadau gyda rheolyddion a Chofrestrau Achrededig i wella eu perfformiad ymhellach.
- Asesu'r newidiadau a wnaed gan reolyddion a Chofrestrau Achrededig i fabwysiadu dull mwy cadarnhaol ac ataliol o'u gwaith.

## Nod strategol 3:

# Gweithio gydag eraill i wneud y system gyffredinol o reoleiddio gofal iechyd yn fwy cydlynol, cefnogol ac ataliol

**Er mwyn i reoleiddio gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol fod yn effeithiol, rhaid iddo adlewyrchu gwaith tîm amlddisgyblaethol a bod yn gydnaws â rheoleiddio'r mannau lle darperir gofal, yn ogystal â rheoleiddio meddyginiaethau a chynhyrchion eraill. Mae angen i ofynion a osodir gan reolyddion a chyflogwyr hefyd gyd-fynd mewn ffyrdd sy'n lleihau beichiau diangen ac yn cynyddu cyfleoedd i gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Drwy'r nod strategol hwn, byddwn yn helpu llunio system reoleiddio fwy cydgysylltiedig sy'n blaenoriaethu atal wrth geisio mynd i'r afael ag achosion arfer gwael a'r niwed canlyniadol. Dylai'r system reoleiddio hefyd feithrin cydweithio, cefnogaeth a dysgu.**

- I annog llywodraethau'r DU i ddatblygu strategaethau rheoleiddio i gefnogi cyflawni cynlluniau'r gweithlu wrth gynnal diogelwch a hyder y cyhoedd.
- I annog gweithredu ar unrhyw feysydd o or-reoleiddio neu dan-reoleiddio yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig, gan weithio mewn cydweithrediad ag eraill.
- I gefnogi cydweithio rhwng rheolyddion a chyda rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu amgylcheddau gwaith mwy diogel.
- Gweithio gyda rheolyddion, Cofrestrau Achredededig, a rhanddeiliaid eraill i wella diwylliannau gweithle sy'n cefnogi lles, dysgu, gwelliant parhaus ac yn atal niwed i unigolion cofrestredig.

**Erbyn 2029:** Bydd gan bedair gwlad y Deyrnas Unedig: strategaethau rheoleiddio sy'n cefnogi cynllunio'r gweithlu; sylw wedi ei roi i feysydd blaenoriaeth o or-reoleiddio neu dan-reoleiddio, gan gynnwys ymyriadau cosmetig anfeddygol; a bydd gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn adrodd am ddiwylliannau gweithle mwy cadarnhaol sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol i gyflawni eu rolau'n effeithiol a chadw pobl yn fwy diogel.

**Byddwn yn gwybod bod gwelliannau wedi'u gwneud os:** mae cynllunio'r gweithlu ledled y Deyrnas Unedig yn cael ei ategu gan strategaethau rheoleiddio; mae prosesau rheoleiddio a chofrestru ar gyfer pob proffesiwn yn gymesur â'r risg o niwed; a bod didwylledd, dysgu a gwella ansawdd yn sail i ofal diogel ym mhob amgylchedd gwaith.

# Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn,

## Yn 2026/27,byddwn yn:

- Ymgysylltu â llywodraethau'r DU i adolygu sut y gellir datblygu strategaethau rheoleiddio a fydd yn helpu cefnogi cynlluniau gweithlu cenedlaethol.
- Datblygu a gweithredu model ar gyfer sut rydym yn nodi, blaenoriaethu ac yn annog gweithredu ar feysydd o dan-reoleiddio a gor-reoleiddio.
- Parhau i weithredu i leihau risgiau ar gyfer meysydd blaenoriaeth hysbys fel ymyriadau cosmetig anfeddygol trwy gefnogi model rheoleiddio mwy cadarn ar gyfer pobl sy'n cynnig y triniaethau hyn.
- Gweithio gydag eraill i hyrwyddo system reoleiddio fwy ataliol.
- Hwyluso modelau rheoleiddio ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol rheoleiddiedig a chofrestredig, gan gynnwys rheolwyr y GIG, sy'n cefnogi llesiant unigolion cofrestredig a diwylliannau gwaith cadarnhaol.
- Cynnull rheolyddion, cofrestrau achrededig a rhanddeiliaid eraill i nodi a hyrwyddo galluogwyr ac i ddechrau mynd i'r afael â rhwystrau i ymarfer proffesiynol diogel ac effeithiol mewn lleoliadau gweithle.

## Yn 2027/28,byddwn yn:

- Datblygu ein methodoleg Sicrwydd Cyffyrddiad Cywir i sicrhau newidiadau cymesur mewn dulliau rheoleiddio i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed.
- Parhau i gefnogi galluogwyr ac i fynd i'r afael â rhwystrau i ymarfer proffesiynol diogel ac effeithiol mewn lleoliadau gweithle.

## Yn 2028/29, byddwn yn:


- Asesu'r angen i ddatblygu strategaethau rheoleiddio ymhellach i gefnogi cynlluniau gweithlu cenedlaethol.
- Asesu'r angen i ddatblygu strategaethau rheoleiddio ymhellach i gefnogi cynlluniau gweithlu cenedlaethol.

# Sut mae'r nodau strategol hyn yn gweithio gyda'i gilydd

**Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r tri nod strategol yn cydberthyn. Mae gwaith craidd yr Awdurdod yn gwella diogelwch y cyhoedd a hefyd yn ysgogi gwelliannau mewn rheoleiddio a chofrestru.**

Gyda'i gilydd mae'r rhain yn gwneud cyfraniad allweddol at ofal mwy diogel i bawb. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn themâu allweddol sy'n sail i bob un o'r tri nod strategol.

Mae gan ddiwygio rheoleiddio botensial i gefnogi gwelliannau mewn rheoleiddio a chofrestru; a gallai alluogi rheoleiddio proffesiynol i wneud cyfraniad mwy at ofal mwy diogel i bawb.



# Sut y byddwn yn gweithio i gyflawni ein cynllun strategol

## Sut y byddwn yn gwella sut rydym yn gweithio yn 2026-29

Er mwyn cyflawni'r nodau a sefydlir yn y cynllun hwn bydd angen i ni wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau. Mae'r PSA wedi ymrwymo i ddarparu gwerth am arian. Ein nod yw gwneud hynny mewn tair ffordd: adolygu gwariant yn ofalus a rheoli costau; gwerthuso prosesau craidd yn systematig i nodi gwelliannau mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd; a gwneud y mwyaf o fanteision ein gwaith er budd gwell rheoleiddio a chofrestru. Er enghraifft, rydym wedi cymryd camau i leihau ein gwariant ar swyddfeydd, gwasanaethau TG a phensiynau; ac rydym wedi adolygu a gwella prosesau ar gyfer ein swyddogaeth Cofrestrau Achrededig, prosesau Adran 29 ac adolygiadau perfformiad.

Bydd ein safonau newydd yn bwysig iawn ar gyfer ein gwaith goruchwylio ac ar gyfer gyrru gwelliannau mewn rheoleiddio a chofrestru. Byddwn yn ceisio ffyrdd o sicrhau mwy o fewnbwn gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau i'n holl waith; a sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu'r gwahanol gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig. Byddwn yn ystyried sut y gallwn wneud y defnydd gorau o offer digidol a deallusrwydd artiffisial i wella ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd.

Byddwn hefyd yn datblygu Strategaeth Gyfathrebu a Strategaeth Pobl ar gyfer 2026-29 i gefnogi cyflawniad ein hamcanion.

Byddwn yn gwella ymhellach ein diwylliant o ddysgu mewnol a thryloywder, fel y gallwn wella'n barhaus, a disgwyl i'r rhai yr ydym yn eu goruchwylio wneud yr un peth. Byddwn yn dal ein hunain i'r un safonau ag y disgwyliwn gan eraill. Bydd hyn yn golygu gweithio i wella amrywiaeth trwy ddatblygu a recriwtio, yn enwedig ar lefelau uwch yn y sefydliad, a thrwy bolisïau cynhwysol a hyfforddiant yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI). Ar hyn o bryd mae gennym ddau amcan cydraddoldeb a gefnogir gan gynlluniau gweithredu blynyddol: adeiladu gweithle cynhwysol; a datblygu ein harweinyddiaeth EDI. Byddwn yn parhau i adolygu'r amcanion hyn drwy gydol y cynllun 2026-29 hwn. Yn olaf, bydd gennym ffocws cryf ar gefnogi ein staff a sicrhau lles pawb sy'n gweithio yn yr Awdurdod.

# Ein gwerthoedd

Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod popeth a wnawn yn cael ei ategu gan ein gwerthoedd. Mae ein gwerthoedd yn disgrifio sut fyddwn ni'n gweithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol. Rydym yn ymgeisio i hyrwyddo, datblygu ac arddangos y gwerthoedd hyn ym mhopeth a wnawn. Mae diwylliant cadarnhaol yn arwain at well perfformiad a gwell deilliannau i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

Ein gwerthoedd:

| | |
|---|---|
| Cywirdeb | byddwn yn agored, onest ac yn ymddiried yn ein gilydd. |
| Trylowder | byddwn yn glir ynghylch ein perfformiad a'r rhesymau dros ein penderfyniadau gyda phob rhanddeiliad. |
| Parch | byddwn yn trin ein gilydd, a'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw tu allan i'r sefydliad, gyda pharch ar bob adeg. |
| Tegwch | byddwn yn ymdrechu i fod yn deg ym mhob agwedd o wneud penderfyniadau. |
| Gwaith tîm | byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwell deilliannau i gleifion a'r cyhoedd. |

**ISBN 978-1-5286-6300-7**

**E 03562304 03/26**

cy.professionalstandards.org.uk/